



# Siarad â'ch benthyciwr

**Pam ei fod yn  
syniad da**


**Beth i'w ddisgwyl  
a sut i baratoi am  
y sgwrs**

**Pethau sydd efallai yn  
eich poeni**

**Cymorth ychwanegol**


# Pam ei bod yn syniad da siarad â'ch credydwr

Mae credydwr yn unrhyw sefydliad y mae gennych filiau neu ymrwymïadau talu iddo - er enghraifft, tai, cyfleustodau, cyngor neu'r llywodraeth. Ac mae'n cynnwys cwmnïau y mae gennych ymrwymïadau credyd iddynt - e.e. benthycïadau a chardïau credyd. Os ydych chi'n poeni am fethu taliad, rhoi gwybod i'ch credydwr yw'r cam cyntaf gorau i ddatrys eich problemau ariannol ac osgoi mynd i broblemau dyled.




## Mae gennych hawl

Ni ddylech byth deimlo o dan bwysau i dalu'r hyn ni allwch ei fforddio, felly mae hawl gennych i roi gwybod i'ch credydwr os ydych yn cael trafferth ariannol.



## Rhaid iddyn nhw eich helpu

Mae gan credydwr gyfrifoldeb i'ch cefnogi a ch trin yn deg trwy gynnig ystod o opsiynau fforddiadwy a fydd yn gweithio i'r ddau ohonoch.



## Cyrraedd trefniant sy'n iawn i'ch anghenion chi

Gall credydwr weithio gyda chi i gytuno ar drefniant talu mwy hyblyg. Wrth wneud hynny, gallwch osgoi benthycia mwy o arian i'w talu, a allai gostio llai i chi.

## Mae'n stopio pethau rhag mynd yn waeth

Mae rhoi gwybod i'ch credydwr yn gynnar yn golygu y gallent roi cynllun ar waith i'ch helpu cyn bod pethau'n mynd yn waeth.



## Cymorth arall

Gall rhai credydwr eich cyeirio at elusennau neu gymorth arall sy n cynnig grantiau i'ch helpu i dalu biliau na fydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl.



## Gall arbed arian i chi

Efallai y bydd rhai credydwr yn gallu cynnig gwell tariffau i chi neu fargeinion sy n fwy addas i'ch anghenion a ch cyllideb.



# Beth i'w ddisgwyl a sut i baratoi



## Gwybod ble i ddechrau

Cyn cysylltu â'r sefydliad, y cam cyntaf yw cymryd yr amser i fod yn drefnus.



## Paratoi am sgwrs

Bydd cymryd yr amser i baratoi drwy gasglu gwybodaeth a meddwl am yr hyn y gallent ofyn i chi, yn helpu'r broses o siarad â nhw bod yn haws.



## Gwneud y cyswilt cyntaf

Gall cysylltu â'ch credydwr fod yn anodd, yn enwedig os nad ydych wedi gorfod ei wneud o'r blaen. Mae gennym restr wirio i'ch helpu chi gyda'r sgrysiau anodd hynny.



## Opsiynau efallai y bydd eich credydwr yn eu cynnig i chi

Gofynnwch am y gwhanol fathau o gymorth y gallai sefydliad ei gynnig i chi. Cofiwch, cyn i chi gytuno i gynllun, ofyn a fydd y cynllun yn effeithio ar eich sgôr credyd.



## Beth i'w wneud ar ôl siarad â'ch credydwr

Os ydych wedi dod i gytundeb newydd gyda'ch credydwr, sicrhewch eich bod yn cael cytundeb ysgrifenedig yn dangos beth oedd wedi'i gytuno. Mae gennym restr wirio a fydd yn eich helpu chi gyda'r camau nesaf.



## Cymorth ychwanegol os nad ydych yn hapus gyda'r canlyniad

Gofynnwch am beth i'w wneud os nad ydych yn teimlo bod pethau yn gwella neu sut i fynd ati i wneud cwyn.




**Eisiau gwybod mwy am sut allwch  
chi baratoi am sgwrs gyda'ch credydwr?**

**Ewch i [moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/cost-of-living/talking-to-your-creditor](https://moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/cost-of-living/talking-to-your-creditor)**

**Neu sganiwch y côd QR am  
fwy o wybodaeth**



# Chwalu mythau -siarad â'ch credydwr



## Maen nhw eisiau cael fy harian yn unig


### Ffaith

Er eu bod am gael yr arian yr ydych wedi i fenthycu ganddynt yn ôl, dylent weithio gyda chi i gyrraedd trefniant teg a fforddiadwy sy'n gweithio i chi ac iddyn nhw.

## Beth am os byddant yn terfynu fy ngwasanaeth oherwydd na allaf dalu?

### Ffaith

Dyna'r dewis olaf nad oes neb ei eisiau. Yn sylfaenol, mae gan eich credydwr awdurdod i derfynu'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i chi, ond gallant ond gwneud hyn os byddwch yn gwrthod ymgysylltu â nhw ac yn methu â gwneud unrhyw daliadau tuag at eich bil yn barhaus. Mae eithriadau, er enghraifft, ni chaniateir i gwmnïau dŵr stopio eich cyflenwad dŵr.



## Beth am os byddant yn gwrthod siarad â fi amdani?

### Ffaith

Gyda chostau byw cynyddol, mae credydwr yn gwybod bod nifer fawr o bobl yn cael trafferth ariannol ar hyn o bryd. Ond ni allant nhw eich helpu chi oni bai eich bod yn gofyn am help. Dylai credydwr ymdrin â chi yn deg ac yn gweithio gyda chi i ddatrys eich sefyllfa ariannol, felly byddant bob amser eisiau siarad â chi.

## Does gen i ddim arian i'w roi iddyn nhw, felly beth yw'r pwynt?

### Ffaith

Ni all sefydliadau y mae arnoch arian iddynt gymryd arian nad oes gennych chi, felly mae n bwysig siarad â nhw cyn i chi fethu taliad. Efallai y byddant yn cytuno i chi gael cyfnod byr heb dalu. Neu os ydych yn cael trafferth mawr, gallwch ofyn am ddileu r dyled yn rhannol neu n llawn.

# Cymorth ychwanegol


## Ydych chi wedi colli taliad?

Defnyddiwch ein adnodd Sut i gyrraedd cyngor arian am gyngor dyled sydd am ddim a chyfrinachol



- ✓ ar-lein,
- ✓ dros y ffôn
- ✓ neu yn agos i ble ydych chi'n byw.

Ewch i [moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/debt-advice-locator](https://moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/debt-advice-locator)





# Cysylltiadau defnyddiol

## Eiriolaeth ariannol a phenodi

Mae DOSH yn elusen sy'n darparu hyrwyddwr ariannol lleol a fydd yn cyfarfod â chi ac yn eich cefnogi gyda'ch budd-daliadau, cyllidebu, bancio, biliau a llawer mwy. Gallant siarad â'ch benthyciwr ar eich rhan.

Gallwch gysylltu â nhw drwy'r wefan **dosh.org**  
Ffoniwch 0300 303 1288

## Datgelu cyflyrau iechyd meddwl

Mae'r canllaw MoneySavingExpert am iechyd meddwl a dyled yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am sut y mae'n rhaid i'ch benthycwyr gyfathrebu gyda chi os byddwch yn dewis dweud wrthynt am gyflwr iechyd meddwl.

Darllenwch y llyfryn yn **moneySavingExpert.com/credit-cards/mental-health-guide**

Mae Iechyd Meddwl a Chyngor Arian yn lle arall sy'n darparu cyngor a chymorth ymarferol os oes gennych broblemau iechyd meddwl ac arian.

I dderbyn help ganddynt, ewch i **mentalhealthandmoneyadvice.org**

## Siarad â CThEM am dreth, Yswiriant Gwladol neu gredydau treth

Gall CThEM roi cymorth ychwanegol, er enghraifft, os na allwch ddefnyddio'r ffôn, neu os oes angen gwybodaeth mewn fformat neu iaith wahanol arnoch, neu os oes angen rhywun arnoch i siarad ar eich rhan.

Am wybodaeth am sut i gysylltu â CThEM, ewch i **gov.uk/get-help-hmrc-extra-support**

## Siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau am ordaliadau, blaendaliadau, benthyciadau taliadau neu fenthyciadau cronfa gymdeithasol

Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau safon gwasanaeth ar gyfer pob cyfathrebu gyda'i gwsmeriaid. Am fwy o wybodaeth am sut y dylech ddisgwyl cael eich trin a pha wybodaeth y byddant yn ei rhoi i chi, ewch i **gov.uk/cymraeg**

## Angen mwy o help?


Cysylltwch â ni am gyngor ariannol diduedd ac am ddim os oes angen help arnoch i gyllidebu neu wneud eich arian para yn hirach, p un a yw hynny ar-lein neu dros y ffôn.

Beth bynnag yw eich ymholiad, rydym yma i'ch helpu. Os nad ydym yn gwybod yr ateb, byddwn yn eich cyfeirio i rywun sydd yn gwybod yr ateb.

**moneyhelper.org.uk/cy**







Mae HelpwrArian yn sefydliad annibynnol wedi'i sefydlu gan y Llywodraeth i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian drwy roi cyngor diduedd ar bensiynau ac arian i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Am gyngor diduedd ac am ddim ar unrhyw ymholiadau arian neu bensiynau, gallwch gysylltu a ni drwy ffonio:

Cyngor arian

**0800 138 3944** Llundain – Gwe 8yb–6yh

**+44 20 3733 3495** os ydych y tu allan i'r DU

Cyngor pensiynau

**0800 011 3797** Llundain – Gwe 9yb i 5yh

**+44 20 7932 5780** os ydych y tu allan i'r DU

Neu ewch i [moneyhelper.org.uk/cy](https://moneyhelper.org.uk/cy)

# Helpwr ↪Arian

Os hoffech dderbyn y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar y rhifau ffôn uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Mehefin 2023). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

\*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu'n monitro galwadau.

© HelpwrArian Mehefin 2023

Cyf: TTYC Meh23 Cyf1 Cym